Ysgol Cybi

Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion / *School Staff Social Media Policy*

(Fersiwn 1, Rhagfyr 2022 / *Version 1, December 2022*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r egwyddorion a ddylunwyd i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol fel bod cyfrinachedd disgyblion, staff ac enw da'r ysgol yn cael eu diogelu.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar dudalen Diogelu Data sydd ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines the principles designed to ensure that all school staff use social media responsibly so that the confidentially of pupils, staff and the reputation of the school are safeguarded.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Rhagfyr 2022 / *December 2022*	Polisi newydd / *New policy.*	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Rhagfyr 2025 / *December 2025*

Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@anglesey.gov.wales

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Templed polisi ar yr egwyddorion a gynlluniwyd i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol fel bod cyfrinachedd disgyblion, staff ac enw da'r ysgol yn cael eu diogelu.

Document: *Policy template on the principles designed to ensure that all school staff use social media responsibly so that the confidentially of pupils, staff and the reputation of the school are safeguarded.*

Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb y llywodraethwyr ysgol yw sicrhau bod gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r polisi hwn. Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau gweithrediad a chydymffurfiaeth gan holl staff yr ysgol.

Responsibility: *It is the responsibility of the school governors to ensure procedures are in place to ensure that the school complies with this policy. It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi 4
2. Sgôp 5
3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau 6
4. Diffiniadau 6
5. Cyfrifoldebau 7
   5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol 7
   5.2. Y Pennaeth (ac/neu'r Person sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol) 7
   5.3. Holl Staff yr Ysgol 7
   5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion 8
6. Goblygiadau Cyfreithiol 8
7. Risgiau Cyfryngau Cymdeithasol 9
8. Prif Egwyddorion Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol 10
   8.1. Camau Gweithredu i'w Hystyried 10
   8.2. Gweithredoedd ac Ymddygiad Gwaharddedig 11
9. Defnyddio Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol yr Ysgol 12
10. Cytundeb Rhiant/Gofalwr a Staff yr Ysgol 13
11. Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol 13
12. Pan fo Aelod o Staff Ysgol yn Riant/Gwarcheidwad yn ogystal â Chyflogai yn yr Ysgol 15
13. Defnydd Amhriodol o Gyfryngau Cymdeithasol 15
14. Bwlio ac Aflonyddu Seiber 16
15. Monitro 17
16. Recriwtio 18
17. Hyfforddi Staff 18
18. Mynd yn Erbyn y Polisi 18
19. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth 19

ATODIAD A- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Staff Ysgolion - Rhestr Wirio'r Pennaeth 36

English Version **20**

1. Datganiad Polisi

Cydnabyddir bod gan apiau rhwydweithio cymdeithasol a theclynnau cyfryngau cymdeithasol y potensial i chwarae rhan bwysig mewn llawer o agweddau o fywyd ysgol, gan gynnwys dysgu ac addysgu a chyfathrebiadau allanol. Maent yn dod â chyfleoedd i ddeall, ymgysylltu a chyfathrebu â grwpiau amrywiol mewn ffyrdd newydd. Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn darparu sianeli ychwanegol i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr i ryngweithio â'r ysgol. Mae'r polisi yma felly yn annog defnydd cyfrifol a phroffesiynol o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cefnogi darpraru addysg a chyfathrebiad.

Mae'r polisi hwn hefyd yn darparu ymdriniaeth strwythuredig â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a bydd yn sicrhau ei fod yn effeithiol, yn gyfreithiol ac nad yw'n cyfaddawdu gwybodaeth neu systemau/rwydweithiau cyfrifiadur yr ysgol.

Mae hefyd yn amlinellu'r egwyddorion a ddylunnir i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn amddiffyn cyfrinachedd disgyblion a bod staff yn sicrhau bod enw da'r ysgol yn cael ei ddiogelu. Mae'n hanfodol bod disgyblion, rhieni/gofalwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol â hyder ym mhenderfyniadau a gwasanaethau'r ysgol.

Mae gweithio mewn ysgol yn gofyn i holl staff yr ysgol gynnal ffiniau proffesiynol ym mhob ffurf o gyfathrebu, p'un a yw'n ymwneud â thechnoleg electronig/ddigidol ai peidio. Mae hyn yn hanfodol i gynnal ymddiriedolaeth gyhoeddus a pherthnasau proffesiynol priodol â disgyblion. Ni ddylai ymddygiad yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol arwain at staff yr ysgol yn gwneud y ffiniau proffesiynol hynny'n aneglur neu eu croesi. Mae'n rhaid i staff ysgol fod yn ymwybodol o hyd o'r angen i gadw eu bywydau personol a phroffesiynol ar wahân pan fyddant yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r risgiau a'r canlyniadau posibl o gamddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnal ei dyletswydd i ddiogelu plant; y sawl sy'n gweithio i'r ysgol, a'r gymuned ehangach. Mae'r polisi hwn yn cynorthwyo staff ac unigolion i osgoi'r risgiau anfantais o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cymhwyso i unrhyw ddefnydd sydd wedi ei gymeradwyo o gyfathrebu cyfryngau cymdeithasol yn yr ysgol neu i ddefnydd personol o gyfryngau cymdeithasol y tu allan i'r ysgol.

Mae'r polisi hwn hefyd yn adnabod yr angen i'r ysgol gynnig amddiffyniad i staff ysgol y gall gael eu haflonyddu neu eu herlidio dros gyfryngau cymdeithasol oherwydd eu perthynas broffesiynol â'r ysgol.

Mae'r polisi hwn yn:

- amlinellu cyfrifoldebau staff ysgol sy'n defnyddio safleoedd rhwydweithio cymdeithasol;
- sicrhau bod cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio'n ddiogel, yn gyfreithiol ac yn effeithiol ar gyfer darpariaeth economaidd gwasanaethau a leolir yn yr ysgol;

- lleihau'r risgiau enw da, cyfreithiol a llywodraethiant i'r ysgol a'i gweithwyr sy'n codi o ddefnydd cyfryngau cymdeithasol gan staff mewn capasiti personol a phroffesiynol;
- sicrhau defnydd diogel o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion cyfathrebu ac ymgysylltiad;
- sicrhau bod dull cyson yn cael ei gymhwyso ar draws yr ysgol; a
- sicrhau y gall defnyddwyr adnabod pa wybodaeth cyfryngau cymdeithasol sy'n dod yn gyfreithlon o'r ysgol.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob aelod o staff ysgol, gan gynnwys gweithwyr dros dro/asiantaeth/llanw, contractwyr eraill, gwirfoddolwyr, ymgynghorwyr, llywodraethwyr ac unrhyw drydydd parti arall sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol at ddibenion ysgol swyddogol p'un a yw hynny ar neu oddi ar y fangre. Gall y polisi hwn hefyd gymhwyso at gyn-weithwyr dan amgylchiadau penodol.

Mae'r polisi hwn yn ymdrin â defnydd personol o'r cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â defnydd o gyfryngau cymdeithasol at ddibenion ysgol swyddogol, gan gynnwys safleoedd y cânt eu gwesteia a'u cynnal ar ran yr ysgol.

Yn y polisi hwn, mae cyfryngau cymdeithasol yn golygu meddalwedd cyfathrebu electronig, apiau (gan gynnwys y rhai a redir ar ddyfeisiau symudol) sy'n galluogi defnyddwyr i ryngweithio, creu ac amnewid gwybodaeth ar-lein.

Mae'r polisi hwn yn cymhwyso at lwyfannau cyfryngau cymdeithasol megis safleoedd rhwydweithio (e.e. Facebook, Instagram, MySpace, Snapchat, LinkedIn a Google Chat), blogiau, meicroflogiau megis Twitter, ystafelloedd sgwrsio, fforymau, podlediadau, gofodau cydweithredol, gwyddoniaduron mynediad agored ar-lein megis Wikipedia, gwefannau llyfrnodi cymdeithasol a safleoedd rhannu cynnwys megis Flickr ac YouTube. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i fyrddau/fforymau negeseuon ar-lein a sylwadau o dan eitemau newyddion ac erthyglau eraill. Fodd bynnag, nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac mae llwyfannau ar-lein newydd i'w hystyried yn awtomatig.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn dechnoleg sy'n symud yn sydyn ac mae'n amhosibl ymdrin â phob amgylchiad neu gyfrwng sy'n dyfod, felly mae'n rhaid dilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y polisi hwn yn agos, waeth beth yw'r cyfrwng neu'r llwyfan.

Wrth ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, dylai staff ysgolion gofio bod yr ysgol yn gorff cyhoeddus a bod yr ysgol yn destun i ddisgwyliadau amrywiol.

Disgwylir i staff ysgol gynnal y safonau uchaf o ran ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a disgwylir iddynt gadw at egwyddorion allweddol ymddygiad da ac ymarfer proffesiynol yn unol â *Chod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol Cyngor y*

Gweithlu Addysg (CGA) a glynu wrth *Ganllaw Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol.*

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar egwyddorion y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestreion Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA); Canllaw Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol* a *Chanllaw Arfer Da CGA Cynnal Ffiniau Proffesiynol Gyda Dysgwyr.*

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion*, *Polisi Diogelwch Gwybodaeth Ysgolion, Polisi E-bost Staff Ysgolion, Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion, Polisi Diogelu* a *Pholisi E-ddiogelwch.*

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, meddiannu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, dargadw, diwygio, addasu, altro, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, dileu gwybodaeth neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Defnyddwyr data	Yn cynnwys gweithwyr sydd â'u gwaith yn ymwneud â data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maent yn ymdrin â hi drwy ddilyn polisïau diogelu data a diogelwch bob amser. Mae staff a gyflogir gan ysgolion yn ddefnyddwyr data.
Digwyddiad Diogelwch Data	Toriad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu neu fynediad anawdurdodedig at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.
Cyfryngau Cymdeithasol	Unrhyw blatfform ar-lein sy'n cynnig rhyngweithio amser real rhwng y defnyddiwr ac unigolion neu grwpiau eraill. Mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, lwyfannau cyfathrebu, fforymau trafod ar-lein, blogiau, gofodau cydweithredol, gwasanaethau rhannu cyfryngau, cymwysiadau micro-flogio a'r defnydd o we-gamerâu.

Seiberfwlio	Unrhyw ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol neu dechnoleg cyfathrebu i fwlio unigolyn neu grŵp.
Meddalwedd Maleisus	Meddalwedd a ddylunnir yn arbennig i aflonyddu, difrodi neu gael mynediad anawdurdodedig i system gyfrifiadurol.
Seiberddiogelwch	Cyfeiria seiberddiogelwch at y corff o dechnolegau, prosesau ac arferion a gynlluniwyd i ddiogelu rhwydweithiau, dyfeisiau, rhaglenni a data rhag ymosodiad, difrod neu fynediad heb awdurdod.
Ap	Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer "application" yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu'r Ysgol

Mae corff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am:

- fonitro cydymffurfiad ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol yn ymwneud â'r polisi hwn;
- sicrhau y gall yr ysgol dystiolaethu cydymffurfiad â deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Y Pennaeth (ac/neu'r Person sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)
Mae'r Pennaeth ac/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau gweithrediad y polisi hwn a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiad â'r polisi hwn;
- monitro gweithrediad a chydymffurfiad â'r polisi hwn;
- sicrhau bod yr holl staff yn deall y safonau o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a chymryd camau gweithredu pan fydd ymddygiad yn disgyn o dan ei ofynion;
- delio ag unrhyw adroddiad o gamddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- monitro bod staff ysgol yn glynu at egwyddorion y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA)* a *Chanllaw Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol;*
- sicrhau bod gan staff hyfforddiant priodol i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

5.3. Holl Staff yr Ysgol
Mae'r holl staff a gyflogir gan yr ysgol neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cymorthyddion dosbarth, staff cymorth busnes a llywodraethwyr yn gyfrifol am:

- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiad â'r polisi hwn;
- sicrhau arfer defnydd priodol a chywir o gyfryngau cymdeithasol;

- adrodd yn amserol ar unrhyw gamddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i'r Pennaeth;
- cadw at egwyddorion y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA); Canllaw Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn gyfrifol* a Chanllawiau Arfer Da CGA eraill.
- ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant a gynhigir ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn gyfrifol am:

- ddarparu cyngor ac arweiniad i'r ysgol mewn perthynas ag amddiffyn gwybodaeth a diogelwch mewn perthynas â chyfryngau cymdeithasol;
- monitro gweithrediad a chydymffurfiad y polisi hwn gan yr ysgol;
- darparu cyngor a chefnogaeth ac arwain ar adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data mewn perthynas â gwybodaeth bersonol a sensitif a gynhwysir mewn cyfrifon cyfryngau cymdeithasol;
- darparu hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol i athrawon, staff cefnogol a Llywodraethwyr.

6. Goblygiadau Cyfreithiol

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod holl staff yr ysgol yn darparu gwasanaethau cyfrinachol sy'n cwrdd â'r safonau uchaf. Mae'n rhaid i bob unigolyn sy'n gweithio ar ran yr ysgol gydymffurfio â chyfreithiau diogelu data i ddiogelu gwybodaeth bersonol a chategori arbennig y mae ganddynt fynediad ati yn ystod cwrs eu gwaith.

Ni ddylai staff yr ysgol byth roi manylion personol pobl eraill allan, megis cyfeiriad cartref a rhifau ffôn. Rhaid i staff ymdrin â'r holl wybodaeth bersonol neu sensitif yn unol â pholisïau diogelu data'r ysgol.

Dylai holl staff yr ysgol gadw i gof bod yr wybodaeth y maent yn ei rhannu drwy gyfryngau cymdeithasol, hyd yn oed os ydynt ar leoliadau preifat, yn destun i wahanol ddeddfwriaeth.

Dylai staff ysgol hefyd fod yn ymwybodol bod nifer o oblygiadau cyfreithiol ynghlwm â defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol. Gall atebolrwydd godi dan gyfreithiau:

- dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gwlad;
- diogelu data;
- enllib;
- difenwi;
- hawlfraint;
- gwahaniaethu;

- contract;
- hawliau dynol;
- amddiffyn rhag aflonyddu; a
- cyfiawnder troseddol.

Dylai staff ysgolion fod yn ymwybodol, os nad ydynt yn glynu wrth egwyddorion y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestryddion gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA),* y gallai eu cofrestriad gyda CGA gael ei gwestiynu a gallent fod yn destun achos disgyblu.

O dan Egwyddor 1- 'Cyfrifoldeb Personol a Phroffesiynol' y *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol,* o dan bwynt 1.2. mae'n nodi bod yn rhaid i gofrestryddion:

> "gynnal perthynas â dysgwyr yn broffesiynol drwy: *ddefnyddio pob math o gyfathrebu yn briodol ac yn gyfrifol, yn enwedig cyfryngau cymdeithasol*".

7. Risgiau Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r ysgol yn cydnabod y risgiau sydd ynghlwm â defnydd o gyfryngau cymdeithasol ac yn rheoleiddio ei ddefnydd i sicrhau nad yw hyn yn difrodi'r ysgol, ei staff a'r bobl y mae'n eu gwasanaethu. Y prif rai ymysg y risgiau hyn yw:

- gweithredu sifil neu droseddol mewn perthynas â thorri deddfwriaeth;
- datgeliad, colled neu ladrad gwybodaeth bersonol neu sensitif;
- difrod i enw da yr ysgol a chyfaddawdu hyder y cyhoedd yn y gweithlu addysg;
- cyfyngiadau ar gadw gwybodaeth yn breifat ar-lein;
- ni all safleoedd cyfryngau cymdeithasol warantu preifatrwydd waeth pa osodiadau sydd ar waith y gall arwain at wybodaeth bersonol yn cael ei chyrchu gan eraill;
- colli rheolaeth o wybodaeth unwaith y caiff ei chyhoeddi ar-lein;
- gall gwybodaeth ynglŷn â lleoliad fod wedi ei mewnosod mewn lluniau a chynnwys arall, ac ar gael i eraill ei gweld;
- ymddygiad amhriodol, beirniadaeth a chwynion gan ffynonellau allanol;
- mynediad at ddeunydd amhriodol;
- sylwadau neu bostiadau yn cael eu camddehongli neu eu manipiwleiddio gan eraill a staff ysgol yn bod yn agored i gamddefnydd anfwriadol;
- ymddygiad troseddol tuag at aelodau staff ysgol gan staff neu ddisgyblion eraill;
- y ffin rhwng bywyd preifat a phroffesiynol staff ysgol yn dod yn aneglur;
- efallai nad oes rhaid i ymddygiad ar-lein staff ysgol fod yn berthnasol i ddysgwyr iddo fod â gafael ar ffitrwydd i ymarfer;
- camddefnydd arall gan staff ysgol gan gynnwys defnydd personol amhriodol;
- bwlio seibr;
- ymosodiadau peirianneg cymdeithasol – h.y. y weithred o fanipiwleiddio pobl i ddatgelu deunydd cyfrinachol neu gyflawni gweithredoedd penodol;

- aelodau staff ysgol yn adnabod eu hunain yn agored fel staff ysgol ac yn gwneud sylwadau gwaradwyddus ynglŷn â'r ysgol ac/neu ei pholisïau, ynglŷn ag aelodau eraill o staff, disgyblion neu bobl sy'n gysylltiedig â'r ysgol;
- difrod i enwau da proffesiynol gyda chyflogwyr presennol a dyfodol;
- haint feirws neu *malware* (meddalwedd maleisus) arall o safleoedd heintus.

Os caiff gwybodaeth bersonol neu sensitif ei rhannu mewn camgymeriad neu heb gydsyniad ar gyfryngau cymdeithasol, gall fod digwyddiad diogelwch data a fydd angen ei adrodd ar unwaith i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion. Bydd yr ysgol yn cydymffurfio â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion.*

8. Prif Egwyddorion Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol

8.1 Camau Gweithredu i'w Hystyried

Ym mhob cyfathrebiad gan aelodau o staff ysgolion, dylid bob tro ystyried y canlynol:

- deall unrhyw ap cyfryngau cymdeithasol cyn ei ddefnyddio, a bod yn glir ynglŷn â'i fanteision/anfanteision;
- bod yn ymwybodol bob amser o'r angen i gadw bywydau personol a phroffesiynol/ysgol ar wahân. Ni ddylai staff ysgol roi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng eu gwaith a'u diddordebau personol;
- cymryd gofal nad yw rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol yn difrodi perthnasau gwaith rhwng aelodau o staff, disgyblion yn yr ysgol, eu teuluoedd/gofalwyr a rhanddeiliaid eraill ac/neu bartneriaid gwaith yr ysgol;
- wrth ryngweithio â disgyblion, meddwl yn ofalus am y goblygiadau a'r canlyniadau posibl;
- cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda disgyblion, rhieni a gofalwyr hyd yn oed pan mae disgyblion, rhieni neu ofalwyr yn cychwyn rhyngweithiad electronig;
- defnyddio gofal wrth bostio gwybodaeth ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a fforymau ar-lein eraill;
- cynnal safonau proffesiynol drwy gyfathrebu â disgyblion a rhieni/gofalwyr yn electronig ar amseroedd priodol o'r diwrnod a thrwy lwyfannau addysg sefydledig (er enghraifft, tudalen we sydd wedi ei chysegru i raglen ysgol, prosiect neu ddosbarth yn hytrach na phroffil personol);
- sicrhau na wneir unrhyw wybodaeth ar gael y gall ddarparu mynediad anawdurdodedig i berson i'r ysgol, ei systemau ac/neu unrhyw wybodaeth gyfrinachol;
- bod yn ymwybodol o amhleidiaeth, cyfrinachedd neu wrthdaro buddion;
- bod yn ymwybodol nad yw post, unwaith y caiff ei roi ar-lein, yn y sffêr preifat nac yn rheolaeth y postiwr gwreiddiol;
- cyn postio eitemau neu gyfathrebu ar gyfryngau cymdeithasol i ystyried yn ddifrifol a fyddai'r eitem yn cael ei ddweud yn gyhoeddus, ei ddangos yn gyhoeddus neu'n cael eu ysgrifennu'n gyhoeddus i'r cyhoedd ei ddarllen. Os na fyddai, neu os oes peth amheuaeth yna ni ddylid ei bostio gan na fydd

efallai yn bosibl i staff ysgol reoli pwy sy'n gweld yr wybodaeth a sut caiff ei dehongli;
- gwrthod unrhyw geisiadau 'ffrind' gan ddisgyblion a pheidio ag anfon ceisiadau 'ffrind' i ddisgyblion na chyfathrebu â disgyblion ar unrhyw safle rhwydwaith cymdeithasol neu wefan neu fforwm tebyg;
- tynnu eu hunain allan o unrhyw gyswllt neu sgwrs amhriodol â disgyblion;
- adrodd ar unrhyw gamddefnydd o gyfryngau cymdeithasol i'r Pennaeth yn syth, p'un a yw hynny gan ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, aelodau o staff yr ysgol neu Llywodraethwyr Ysgol.

8.2. Gweithredoedd ac Ymddygiad Gwaharddedig

Pan fydd staff ysgolion yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, gwaherddir y gweithredoedd canlynol:

- defnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i gynnal busnes ysgol;
- cynrychioli eu barn bersonol fel barn yr ysgol ar unrhyw gyfrwng cymdeithasol;
- postio logos ysgol neu ddelweddau tebyg y gall arwain i ddarllenwyr postiadau ac ati i gredu bod yr unigolyn yn siarad ar ran yr ysgol;
- ymgysylltu â gweithgareddau sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol y gall ddod â'r ysgol i anfri;
- ymgysylltu â phostiadau neu weithgareddau sy'n hanfodol i gynnal perthnasau gwaith effeithiol rhwng unigolion sy'n 'gweithio' yn yr ysgol;
- trafod neu ddatgelu gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol ynglŷn â disgyblion, eu rhieni/gofalwyr, staff, llywodraethwyr ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill y maent yn rhyngweithio â nhw fel rhan o'u swydd, ar gyfryngau cymdeithasol;
- torri cyfrinachedd eraill gyda disgybl dros gyfryngau cymdeithasol;
- defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn unrhyw ffordd i ymosod, sarhau, cam-drin neu ddifenwi disgyblion, aelodau o'u teuluoedd, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, sefydliadau eraill neu'r ysgol;
- postio sylwadau sy'n annog eraill i wneud sylwadau gwahaniaethol neu sylwadau eraill sy'n broffesiynol annerbyniol;
- annog casineb hiliol neu grefyddol neu weithgareddau tebyg;
- postio datganiadau enllibus – gall unigolyn fod yn gyfreithiol atebol am unrhyw ddifrod i enw da yr unigolyn dan sylw;
- cyhoeddi deunydd sy'n risg o gamau gweithredu ar gyfer difenwi, neu fod o natur anghyfreithlon, rhywiol, gwahaniaethol neu sarhaus;
- cyhoeddi deunydd sy'n cael ei fynegi mewn modd sarhaus, cas, neu amharchus fel arall;
- ymwneud â chyfathrebu o natur bersonol â disgyblion;
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ryngweithio â disgybl heb gyd-destun addysgol dilys a mesurau diogelu priodol;
- cynnig cyngor ar faterion personol i ddysgwr lle nad yw'n cael ei wneud mewn sefyllfa awdurdodedig, megis gofal bugeiliol dynodedig;

- meithrin perthynas amhriodol â disgyblion neu weithgareddau tebyg i ddatblygu perthynas(au) amhriodol;
- rhannu gwybodaeth â disgyblion neu rieni/gofalwyr mewn unrhyw amgylchedd na fyddent yn fodlon ac yn briodol yn ei rhannu mewn ysgol neu leoliad sy'n gysylltiedig ag ysgol neu yn y gymuned;
- lawrlwytho neu gyhoeddi deunydd gan gynnwys cerddoriaeth, delweddau, lluniau a fideos a fyddai'n torri trefniadau hawlfraint neu drwyddedu, neu lle na ellir pennu hawlfraint neu berchnogaeth;
- cyhoeddi deunydd at ddibenion plaid wleidyddol neu ymgyrchu penodol sydd, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, yn effeithio ar gefnogaeth y cyhoedd i blaid wleidyddol;
- cyhoeddi deunydd a ddefnyddir i hyrwyddo buddiannau ariannol personol, mentrau masnachol neu ymgyrchoedd/prosiectau personol neu gymeradwyo brandiau, achosion neu farnau eraill pan gânt eu hadnabod fel cyflogai ysgol;
- darparu tystlythyrau ar gyfer unigolion eraill ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol neu broffesiynol gan y gellir priodoli cyfeiriadau o'r fath, yn gadarnhaol neu'n negyddol, i'r ysgol a chreu atebolrwydd cyfreithiol i awdur y cyfeiriad a'r ysgol;
- cael mynediad i gyfryngau cymdeithasol yn ystod amser gwersi, oni bai ei fod yn rhan o weithgaredd cwricwlwm;
- postio'n ddienw neu o dan enw arall i osgoi'r canllawiau a roddir yn y polisi hwn;
- peryglu diogelwch systemau'r ysgol.

9. Defnyddio Cyfrifon Cyfryngau Cymdeithasol yr Ysgol

Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion ysgol, dylid arsylwi'r arferion canlynol:

- dylai staff ysgolion osod safle neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol amlwg ac addysgol at ddibenion addysgol. Dylai hyn fod ar wahân yn llwyr i gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a ddelir gan yr aelod hwnnw o staff, ac yn ddelfrydol dylid ei gysylltu â chyfrif e-bost ysgol swyddogol;
- dylid hysbysu'r Pennaeth o hunaniaeth ac URL y safle cyn actifadu'r cyfrif;
- defnyddio'r dull cyfathrebu sydd fwyaf effeithiol a phriodol i'r cyd-destun, y neges a'r gynulleidfa;
- dylai cynnwys unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol a gefnogir gan yr ysgol fod yn broffesiynol yn unig a dylai adlewyrchu'n dda ar yr ysgol;
- cynnal naws ffurfiol, cwrtais, parchus a phroffesiynol ym mhob cyfathrebiad cyfryngau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn cael eu cynnal;
- mae'n rhaid i'r cynnwys fod yn agored, yn eirwir, yn onest, yn foesegol, yn wrthrychol, yn gyfreithiol, yn weddus ac yn broffesiynol er mwyn sicrhau bod ffiniau proffesiynol yn cael eu cynnal;
- dylid defnyddio iaith ddi-jargon, Cymraeg a Saesneg clir (dwyieithog) mewn cyfathrebu proffesiynol;

- rhaid i gyhoeddiadau fod yn unol â pholisïau'r ysgol;
- rhaid darparu'r cyfrinair cyfredol neu'r manylion mewngofnodi ar gyfer yr holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol i'r Pennaeth;
- mae'n rhaid gofalu bod unrhyw ddolenni cyswllt i safleoedd allanol o'r cyfrif yn briodol ac yn ddiogel;
- dylid dileu unrhyw sylwadau amhriodol ar neu gamdriniaeth o gyfryngau cymdeithasol a gefnogir gan yr ysgol ar unwaith a rhoi gwybod i'r Pennaeth amdanynt;
- ni ddylai staff gynnwys enwau disgyblion gyda ffotograffau o blant sy'n cael eu cyhoeddi ar wefan yr ysgol ac ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol;
- mae rhieni/gofalwyr wedi cytuno i gyhoeddiad gwybodaeth neu ddelweddau o ddisgyblion ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol;
- ni ddylai staff ysgol geisio gweld/cysylltu â chyfrifon disgyblion e.e. yn achos Twitter, ni ddylai staff ddilyn y rhai sy'n dilyn, rhannu neu hoffi sylwadau/postiadau'r ysgol;
- dilynir egwyddorion diogelu.

Mae'n rhaid i staff ysgol bob amser ymddwyn er budd gorau plant a phobl ifanc wrth greu, cymryd rhan neu gyfrannu cynnwys i safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

10. Cytundeb Rhiant/Gofalwr a Staff yr Ysgol

Bydd yr ysgol yn derbyn cytundeb ysgrifenedig i rannu gwybodaeth bersonol ynglŷn â disgyblion ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ffotograffau a delweddau. Bydd disgyblion, rhieni/y sawl sydd â chyfrifoldeb rhieni yn cael eu hysbysu o ganlyniadau data personol yn cael ei ledaenu'n fyd-eang.

Mae ffurflenni perthnasol ar gael ar dudalen diogelu data meicrowefan y Gwasanaeth Dysgu. Mae'r rhain i'w defnyddio er mwyn cael cytundeb gan ddisgyblion/rhieni/y sawl sydd â chyfrifoldeb rhieni ynglŷn â pha wybodaeth, ffotograffau a delweddau fydd yn cael eu cyhoeddi ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

Mae'n rhaid cydnabod ei bod yn bosibl i ddata personol ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol gael ei rannu tu hwnt i reolaeth yr ysgol.

Mae'n rhaid gwirio ffotograffau'n ofalus i sicrhau nad yw plant sydd ar y rhestr gyfyngedig yn cael eu dangos ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dylai staff gyfarwyddo'u hunain ag enwau'r dysgwyr ar y rhestr honno. Gall fod yn drosedd ddisgyblaethol defnyddio, postio neu gyhoeddi ffotograff neu ddelwedd fideo o ddysgwr gan fynd yn erbyn cyfarwyddiadau eu rhiant/gofalwr.

Mae'n rhaid i staff ysgol roi caniatâd i'w delweddau gael eu defnyddio mewn perthynas â deunyddiau a gynhyrchir gan yr ysgol sy'n hygyrch i aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol).

11. Defnydd Personol o Gyfryngau Cymdeithasol

Rhaid i staff yr ysgol fod yn ymwybodol bob amser o'r angen i gadw eu bywydau personol a phroffesiynol ar wahân. Ni ddylai staff yr ysgol roi eu hunain mewn sefyllfa lle mae gwrthdaro rhwng eu gwaith ar gyfer yr ysgol a'u buddiannau personol.

Ni ddylai staff yr ysgol nodi eu hunain fel aelodau o staff yr ysgol yn eu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol personol. Mae hyn er mwyn atal gwybodaeth ar y safleoedd hyn rhag cael ei chysylltu â'r ysgol a diogelu preifatrwydd staff yr ysgol.

Dylai staff ysgol fod yn ymwybodol y gall eraill geisio gweld eu proffiliau cyfryngau cymdeithasol (e.e. cyflogwyr potensial, disgyblion, rhieni, swyddogion yr wasg).

Dylai staff ysgol ei wneud yn glir mewn postiadau cyfryngau cymdeithasol, neu yn eu proffil personol, eu bod yn siarad ar eu rhan eu hunain. Dylai staff ysgol ysgrifennu yn y person cyntaf a defnyddio cyfeiriad e-bost personol ar gyfer eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Ni ddylid defnyddio cyfeiriadau e-bost ysgol na manylion cyswllt swyddogol eraill i osod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu i gyfathrebu drwy'r fath gyfryngau.

Dylai staff ysgol fod yn ymwybodol eu bod yn bersonol gyfrifol am unrhyw gyfathrebiadau a gyhoeddir ar gyfryngau cymdeithasol i bawb eu gweld. Dylid gwneud unrhyw gyfathrebiad drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol gyda'r ymwybyddiaeth y gellir unrhyw beth a ddywedir, a wneir neu a dderbynnir gael ei wneud ar gael, yn anfwriadol neu fel arall, i gynulleidfa ehangach na'r un a fwriadwyd yn wreiddiol (mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn fforymau cyhoeddus).

Ni ddylai staff ysgol gael cyswllt drwy unrhyw gyfrwng cymdeithasol gydag unrhyw ddisgybl o'r ysgol neu unrhyw ysgol arall. Cynghorir staff ysgol i beidio â chyfathrebu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol gyda chyn-ddisgyblion oni bai am ar safleoedd rhwydweithio proffesiynol am resymau proffesiynol. Gellir ystyried bod cyfathrebu personol yn amhriodol ac yn amhroffesiynol a gall wneud staff ysgol yn agored i honiadau.

Cynghorir staff ysgol yn gryf i beidio â bod yn ffrindiau (ar-lein neu oddi ar-lein) gyda disgyblion neu eu rhieni/gofalwyr. Dylid gwrthod 'ceisiadau ffrind' neu gyswllt gan ddisgyblion neu eu rhieni/gofalwyr a dderbynnir drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol a dylid eu hadrodd i'r Pennaeth.

Cynghorir cymryd gofal wrth wahodd cydweithwyr i fod yn 'ffrindiau' ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol. Mae safleoedd rhwydweithio cymdeithasol yn gwneud y llinell rhwng gwaith a bywydau personol yn aneglur a gall fod yn anodd cynnal perthnasau proffesiynol.

Ni ddylid trafod gwybodaeth y mae gan staff ysgolion fynediad ati fel rhan o'u cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth personol ynglŷn â disgyblion ac aelodau eu teuluoedd, cydweithwyr a phartïon eraill, ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol personol staff ysgol.

Ni ddylid cyhoeddi ffotograffau, fideos neu unrhyw fath arall o ddelweddau o ddisgyblion a'u teuluoedd neu ddelweddau yn darlunio aelodau staff, dillad gyda logos ysgol neu ddelweddau yn adnabod eiddo ysgol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol personol. Hefyd, ni ddylai staff bostio delweddau neu fideos o ddigwyddiadau ysgol ar unrhyw safle cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus.

Ni ddylai staff ysgol bostio sylwadau ynglŷn â phynciau sy'n gysylltiedig â busnes, megis perfformiad yr ysgol, na gwneud unrhyw beth i beryglu gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol yr ysgol.

Cynghorir staff ysgolion yn gryf i sicrhau eu bod yn sefydlu ac yn adolygu lefelau preifatrwydd a gosodiadau diogelwch eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol personol yn rheolaidd mor llym ag y gallant ac i optio allan o restrau cyhoeddus ar wefannau rhwydweithio cymdeithasol er mwyn diogelu eu preifatrwydd eu hunain. Gall gosodiadau preifatrwydd symud a newid heb rybudd ac felly mae angen gwirio gosodiadau'n aml. Dylai aelodau staff yr ysgol gadw eu cyfrineiriau'n gyfrinachol, eu newid yn aml a bod yn ofalus beth sy'n cael ei bostio ar-lein a sicrhau bod eu gosodiadau'n gwahardd eraill rhag eu tagio mewn unrhyw ffotograff neu ddiweddariad heb eu caniatâd.

Dylai staff ysgol amddiffyn eu hunain rhag lladrad hunaniaeth drwy gyfyngu faint o wybodaeth bersonol y maent yn ei rhoi allan. Dylent gymryd gofal wrth bostio gwybodaeth bersonol manwl megis dyddiad geni, lleoliad geni a hoff dîm pêl-droed, y gall ffurfio sail i gwestiynau diogelwch a chyfrineiriau a galluogi manylion personol i gael eu clonio ar gyfer gweithredoedd twyllodrus ac ati a meithrin perthnasau amhriodol.

Dylai staff ysgol hefyd ddewis eu llun proffil cyfryngau cymdeithasol yn ofalus gan ei fod yn estyniad i'w delwedd proffesiynol ar-lein.

Mae'n rhaid adrodd ar unrhyw gamddefnydd neu gamdriniaeth o gyfryngau cymdeithasol i'r Pennaeth cyn gynted ag y sylweddolir arno, yn enwedig pan mae'n ymwneud â disgybl, rhiant/gwarcheidwad neu weithiwr.

12. Pan fo Aelod o Staff yr Ysgol yn Rhiant/Gwarcheidwad yn ogystal â Chyflogai yn yr Ysgol

Mewn achosion lle mae staff yr ysgol hefyd yn rhieni/gwarcheidwaid sy'n gysylltiedig â'r ysgol, fe'u cynghorir i ddefnyddio barn broffesiynol (gan gyfeirio at bolisïau amddiffyn a diogelu plant) wrth gyfathrebu â phlant neu bobl ifanc sydd hefyd yn gysylltiedig â chymuned yr ysgol.

Dylai staff ond derbyn ceisiadau ffrind/cyfathrebu (pan fo gwir angen) gydag eraill sy'n gysylltiedig â chymuned yr ysgol.

Dylai'r berthynas hon fod yn destun craffu o safbwynt proffesiynol a dylai fod yn briodol. Os bydd pryder ynghylch diogelu yn codi, dylid rhoi gwybod i'r arweinydd diogelu dynodedig am hyn yn unol â pholisi'r ysgol.

13. Defnydd Amhriodol o Gyfryngau Cymdeithasol

Os yw staff ysgol yn gweld cynnwys cyfryngau cymdeithasol sy'n amharchu neu'n adlewyrchu'n wael ar yr ysgol, dylent hysbysu'r Pennaeth ar unwaith. Mae'r ysgol yn ystyried yr enghreifftiau canlynol i fod yn ddefnyddiau amhriodol o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol:

- gwneud honiadau am ddisgyblion yn yr ysgol/seiberfwlio;
- gwneud cwynion am yr ysgol/staff yn yr ysgol;
- postio sylwadau negyddol/sarhaus am ddisgyblion/staff penodol yn yr ysgol;
- postio sylwadau sydd yn awgrymu trosedd casineb ar sail hil, crefydd, anabledd, tueddfryd rhywiol, hunaniaeth trawsryweddol;
- postio sylwadau sy'n bygwth trais;
- mynegi barn ar ran yr ysgol;
- postio neu rannu ffotograffau/delweddau/gwybodaeth bersonol sy'n ymwneud â disgyblion neu staff yr ysgol;
- rhannu unrhyw wybodaeth bersonol gydag unrhyw ddisgybl (gan gynnwys manylion cyswllt personol, cyfeiriadau gwefan personol/manylion safle rhwydweithio cymdeithasol).

Bydd yr ysgol yn ystyried cymryd y camau gweithredu canlynol lle credir eu bod yn angenrheidiol:

- cymryd cyngor cyfreithiol a/neu gamau cyfreithiol lle mae'r wybodaeth a bostiwyd yn ddifenwol neu os yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau hyn;
- ymgymryd ag ymchwiliad o dan gweithdrefn disgyblu yr ysgol, nodi pryderon yr ysgol yn ysgrifenedig, gan roi rhybudd i'r cyflawnwr a gofyn i'r deunydd dan sylw gael ei ddileu;
- cysylltu â'r Heddlu lle mae'r ysgol yn teimlo ei bod yn briodol – er enghraifft, os yw'n ystyried bod troseddau (fel aflonyddu) wedi'u cyflawni; neu mewn achosion lle mae gan y postio elfen trosedd casineb, yn cael ei ystyried yn anweddus iawn neu'n bygwth trais;
- cymryd camau cyfreithiol eraill yn erbyn unigolion.

14. Bwlio ac Aflonyddu Seiber

Mae'r ysgol yn cymryd seiberfwlio o ddifrif.

Mae seiberfwlio yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn enwedig ffonau symudol a'r rhyngrwyd, i danseilio, bychanu neu achosi gofid i'r derbynnydd yn fwriadol. Rhaid i staff ysgolion beidio â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd i ymosod, sarhau, cam-drin neu ddifenwi disgyblion, aelodau o'u teulu, cydweithwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, sefydliadau eraill (gan gynnwys yr ysgol).

Mae seiberfwlio ac aflonyddu seiber, fel mathau eraill o fwlio ac aflonyddu, yn awgrymu perthynas lle mae gan unigolyn rywfaint o ddylanwad neu fantais a

ddefnyddir yn amhriodol dros berson neu bersonau eraill, lle mae'r dioddefwr yn dioddef anfantais neu niwed, a lle mae'r ymddygiad yn ddiangen ac yn annymunol i'r dioddefwr. Fodd bynnag, yn yr achos hwn mae'r amgylchedd technolegol wedi golygu bod gweithredoedd bwlio ac aflonyddu bellach yn cynnwys defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Dylid nodi nad oes angen i berson brofi'r math hwn o erledigaeth yn uniongyrchol er mwyn iddo gael ei ystyried yn seiberfwlio/aflonyddu. Mae'r ffaith nad yw person yn ymwybodol bod sylwadau sarhaus neu ddifrïol amdanynt wedi'u rhoi ar wefannau yn dal i gyd-fynd â meini prawf seiberfwlio/aflonyddu.

Ni ddylai staff ysgol ymgysylltu'n bersonol, ymateb na dial am ddigwyddiadau seiberfwlio a dylent roi gwybod i'r Pennaeth am ddigwyddiadau ar unwaith.

Os mai aelod o staff yr ysgol yw'r dioddefwr (yn derbyn unrhyw fygythiadau, camdriniaeth neu aflonyddu gan aelodau o'r cyhoedd drwy eu defnydd o gyfryngau cymdeithasol), dylent gadw unrhyw gofnodion o'r cam-drin ac, os yw'n briodol, sgrinio printiau o negeseuon neu dudalennau gwe gydag amser, dyddiad a chyfeiriad y safle. Rhaid i staff yr ysgol roi gwybod am ddigwyddiadau o'r fath gan ddefnyddio gweithdrefnau'r ysgol.

Bydd yr ysgol yn ei ystyried yn fater disgyblu posibl os yw staff yr ysgol yn defnyddio unrhyw dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gan gynnwys safleoedd cyfryngau cymdeithasol, mewn modd sy'n bwlio/aflonyddu eraill yn yr ysgol neu mewn sefydliadau partner, neu ddisgyblion neu rieni, p'un a yw hyn yn digwydd yn ystod neu y tu allan i'r gwaith.

Mae angen i aelodau staff yr ysgol fod yn ymwybodol, ni waeth beth fo'r gosodiadau preifatrwydd ar eu cyfryngau cymdeithasol/safle rhwydweithio, y gall gwybodaeth amhriodol/difrïol am gydweithiwr yn yr ysgol neu sefydliadau partner, disgyblion eraill neu rieni, ddod o hyd i'w ffordd i'r cyhoedd hyd yn oed pan na fwriedir.

Os mai aelod o staff yr ysgol yw cyflawnwr y digwyddiad/digwyddiadau, ymchwilir i'r sefyllfa wedyn ac, os yw'n briodol, dilynir y weithdrefn ddisgyblu neu fedrusrwydd.

Pan fydd trosedd bosibl wedi'i nodi, a'i hadrodd i'r Heddlu, bydd yr ysgol yn sicrhau nad yw unrhyw ymchwiliad mewnol yn ymyrryd ag ymholiadau'r Heddlu. Bydd staff ysgol sy'n dioddef o seiberfwlio neu aflonyddu’n cael cynnig cymorth gan eu rheolwr llinell a lle bo hynny'n addas, iechyd galwedigaethol.

15. Monitro

Gellir monitro holl systemau'r ysgol yn unol â'r Polisi Defnydd Derbyniol, felly ni ellir tybio preifatrwydd personol wrth ddefnyddio caledwedd ysgol. Gall yr ysgol fonitro, cyfnewid ac adolygu, heb rybudd pellach, weithgareddau staff gan ddefnyddio adnoddau TG a systemau cyfathrebu'r ysgol, gan gynnwys ond heb fod yn

gyfyngedig i bostiadau a gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod rheolau'r ysgol yn cael eu dilyn ac at ddibenion busnes cyfreithlon.

Mae'r ysgol yn parchu preifatrwydd ei gweithwyr. Fodd bynnag, gall postiadau a wneir ar gyfrif personol ennill darllenwyr eang ac felly byddant yn cael eu hystyried yn gyhoeddus yn hytrach na phreifat. Gellir ymchwilio i bostiadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd os amheuir bod y polisïau hyn neu bolisïau cysylltiedig wedi'u torri.

16. Recriwtio

Gall yr ysgol ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysebu swyddi gwag yn yr ysgol. Bydd hysbysebion o'r fath yn cael eu paratoi a'u postio gan yr ysgol.

Mi all gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor hefyd hysbysebu swyddi gwag ar gyfryngau cymdeithasol ar ran yr ysgol.

17. Hyfforddi Staff

Mae'r ysgol yn cydnabod y gall ymyrraeth gynnar amddiffyn disgyblion a allai fod mewn perygl o seiberfwlio neu ymddygiad negyddol ar y cyfryngau cymdeithasol. O'r herwydd, bydd staff yr ysgol yn cael hyfforddiant wedi ei drefnu gan yr ysgol ar adnabod disgyblion a allai fod mewn perygl.

Bydd athrawon a staff cymorth yn derbyn hyfforddiant ar y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion.

18. Mynd yn Erbyn y Polisi

Mae'r polisi hwn yn dibynnu ar staff ysgol yn gweithredu'n gyfrifol ac yn unol â'r canllawiau uchod. Gallai peidio â chydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol. Os bydd cynnwys yn anghyfreithlon, difenwol neu wahaniaethol, gallai arwain at erlyniad, camau disgyblu neu ddiswyddo.

Os canfyddir bod cyflogai wedi mynd yn erbyn y polisi hwn, gall fod yn ddarostyngedig i weithdrefn ddisgyblu'r ysgol. Bydd yn ofynnol i unrhyw aelod o staff yr amheuir ei fod wedi mynd yn erbyn y polisi hwn gydweithredu ag ymchwiliad yr ysgol, a allai olygu darparu cyfrineiriau perthnasol a manylion mewngofnodi.

Efallai y bydd yn ofynnol i aelod o staff yr ysgol ddileu unrhyw gynnwys cyfryngau cymdeithasol yr ystyrir ei fod yn torri'r polisi hwn. Gall methu â chydymffurfio â chais o'r fath arwain at gamau disgyblu.

Os ystyrir bod trosedd wedi'i chyflawni, gellir cymryd camau pellach i gynorthwyo erlyn y troseddwyr.

Os bydd person nad yw'n gyflogai yn mynd yn erbyn y polisi hwn (h.y. gweithwyr dros dro, contractwyr eraill) efallai y bydd eu contract neu drefniant yn cael ei derfynu ar unwaith.

19. Adolygu'r Polisi a Threfniadau Arolygiaeth

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion bob tair blynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, polisi neu ganllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi gael ei ddiweddaru'n gynt.

Bydd y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Reolaeth y Gwasanaeth Dysgu gyda mewnbwn gan y Grŵp Gweithredol Diogelu Data Ysgolion a bydd yn cael ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael eu monitro gan Dîm Arweinyddiaeth yr Ysgol a'r corff llywodraethu.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.llyw.cymru

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â diogelu data ar wefan yr ICO: https://ico.org.uk/

Content **Page**

1. Policy Statement 21
2. Scope 22
3. Legislation, Guidance and Policies 22
4. Definitions 23
5. Responsibilities 24
5.1. School Governing Body 24
5.2. Headteacher (and/or Person Responsible for Data Protection within the School) 24
5.3. All Staff within the School 24
5.4. Schools Data Protection Officer 24
6. Legal Implications 25
7. Social Media Risks 26
8. Main Principles of the use of Social Media 26
8.1. Active Steps to Consider and Action 26
8.2. Prohibited Actions and Behaviours 27
9. Using the School's Social Media Accounts 29
10. Parent/Carer and School Staff Agreement 30
11. Personal Use of Social Media 30
12. Where a Member of School Staff is a Parent/Guardian as well as an Employee of the School 32
13. Inappropriate Use of Social Media 32
14. Cyber Bullying and Harassment 33
15. Monitoring 34
16. Recruitment 34
17. Training of Staff 34
18. Breach of the Policy 34
19. Review of Policy and Oversight Arrangements 35
APPENDIX A- School Staff Social Media Policy- Headteacher's Checklist 37

1. Policy Statement

